COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU A GYNHALIWYD O BELL – AR MICROSOFT TEAMS DDYDD IAU, 6 CHWEFROR 2025 AM 09:30

Yn bresennol

S Maughan – Cadeirydd

Yn bresennol yn rhithwir

G Walter P Baker R Lynch

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dim.

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoliadol |
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes – Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiant
Dim.

**168. Hysbysiad o Benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru mewn perthynas â'r Cynghorydd Steven Bletsoe**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd Prif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoliadol yr adroddiad hwn yn dilyn penderfyniad diweddar Panel Dyfarnu Cymru (PCC) mewn perthynas â chwyn yn erbyn y Cynghorydd |

| | |
|---|---|
| | Steven Bletsoe o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn er mwyn i'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad gan PCC mewn perthynas â'r sancsiwn i'w osod. Gofynnodd y Pwyllgor a ellid ceisio cosb arall heblaw am gadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol neu yn dilyn argymhelliad PCC, a chadarnhawyd gan y swyddog cyfreithiol na allen nhw wneud hynny. Gadawodd yr Aelodau y cyfarfod i drafod.<br><br>PENDERFYNWYD: Yn dilyn trafodaethau'r Pwyllgor, penderfynwyd nad oedd ei sancsiwn gwreiddiol yn afresymol er iddyn nhw ystyried canfyddiadau PCC. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i gynnal ei sancsiwn gwreiddiol o ataliad o 6 mis. Nododd y Pwyllgor hefyd ei fod yn pryderu bod aelodau unigol o'r pwyllgor wedi'u henwi yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn dilyn y gwrandawiad gwreiddiol a rhybuddiodd yn gryf rhag ailadrodd sylwadau o'r fath. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 6 Chwefror 2025 |

## 169. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 6 Chwefror 2025 |